

Afon Cresswell

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 5.3 milltir (8.5 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Cei Cresswell 361, Galw a Theithio Bloomfield (tymhorol 0800 783 1584)

CYMERIAD: Graddfa gymedrol, croesi afon (cerrig camu), glan afon, caeau agored a da byw, llwybrau serth mewn ardaloedd o goetir, 2.8 milltir (4.5 km) o lonydd tawel, gall fod yn wlyb ac yn fwdlyd mewn mannau

CHWILIWCH AM: Adar y dŵr • golygfeydd panoramig • Eglwys Sant Caradog • giât brig yn cael ei ddefnyddio i ddipio defaid • adar coetir

MWY O WYBODAETH: Gellir croesi'r afon yng Nghei Cresswell pan fydd y llanw'n isel yn unig

ALLWEDD

●●●●● Llwyr Cylch

— — — — — Llwyr Cyhoeddus


P Maes Parcio

WC Toileadau Cyhoeddus

B Safle Bws

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi



Afon Cresswell

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Length: 5.3 milltir (8.5 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Cei Cresswell 361, Galw a Theithio Bloomfield (tymhorol 0800 783 1584).

Cyfeirnod map: SN032071

Diolch i'r rhwydwaith canghennog o gilfachau o amgylch y Daugleddau nid oes unrhyw le yng nghanol Sir Benfro yn fwy na 10 milltir o ddŵr llanwol. Mae'r Daugleddau a'i isafonydd yn foryd glasurrol, sef cyfres o gymoedd afon a ffurfiwyd cyn yr Oes Iâ diwethaf ac a "foddwyd" wrth i lefelau'r môr godi.

Roedd llanw a thrai'r môr yn fendith i bobl y sir yn y dyddiau cyn y rheilffordd oherwydd fe allai'r cychod bach hwylio ymhell tua'r tir. Cludwyd nwyddau fel glo a cherrig wedi'u chwarelu o geiau bach fel yr un yng Nghresswell a chei Lawrenny gerllaw.

Roedd gan bentrefi fel Landshipping, Reynalton, Loveston a Yerboston eu pyllau glo eu hunain i gadw'r ceiau yn brysur.

Mae'r llwybr rhwng Pont Cresswell a Lawrenny yn croesi tir fferm tonnog ac mae yna olygfeydd panoramig o Afon Cresswell. Pan fydd y llanw'n isel mae ei fflatiau llaid a'i morfa heli yn gynefin perffaith i'r adar gwyllt a'r rhydwyr. Mae'r crëyr yno byth a hefyd, ac os ydych chi'n ffodus efallai y cewch chi gipolwg ar liwiau glas ac oren llachar glas y dorlan, aderyn chwim ei adenydd.

Yn Lawrenny, pentref prydferth sy'n agos i'r fan ble mae afonydd Cairew a Cresswell yn ymuno â'r Daugleddau, chwiliwch am yr eglwys

Eingl-Normanaid, Sant Caradog. Fe'i adeiladwyd yn y 12fed ganrif ac mae'n edrych allan dros ei chymuned fechan.

Fel Cei Cresswell, roedd llwyfan lanio Lawrenny yn arfer bod yn borthladd prysur. Adeiladwyd cychod yng Nghei Lawrenny ac allforiwyd glo a charreg galch lleol i sawl porthladd ar hyd Môr Hafren. Dirywiodd y masnachu arfordirol ar ôl oes y rheilffordd Fictoraidd a bellach mae Lawrenny yn ganolfan hwylio hamdden.

O'r eglwys mae yna olygfeydd syfrdanol o Afon Cairew a phentref Gorllewin Williamston.

Mwy o wybodaeth: Gellir croesi'r afon yng Nghei Cresswell pan fydd y llanw'n isel yn unig.

